# Cynhyrchu porc yng Nghymru

PORC BLASUS

# Porc yng Nghymru

- Mae ffermio wedi bod yn rhan allweddol o hanes a diwylliant Prydain ers canrifoedd.
- Er bod Cymru'n adnabyddus am gynhyrchu cig oen a chig eidion mae 'na nifer o ffermwyr porc yng Nghymru hefyd.
- Wyddost di taw cig mochyn ydi'r cig sy'n cael ei fwyta fwyaf aml o gwmpas y byd?
- Yng Nghymru mae moch yn cael eu magu mewn gyriau bach er mwyn creu awyrgylch hapusach i'r anifeiliaid fyw ynddo.
- Tydi moch ddim yn malio llawer beth maent yn ei fwyta ac yn bwyta llwyth.
- Mae porc yn gig amlbwrpas iawn, yn faethlon ac yn flasus ac ar gael drwy gydol y flwyddyn.



# Hanes moch

Mae'r diwydiant porc heddiw yn seiliedig ar 6000 o flynyddoedd o hanes magu moch.



Mae moch yn rhoi tri pheth i ni

1. Maent yn creu gwrtaith i'r tir
2. Maent yn bwyta bwyd gwastraff
3. Maent yn darparu cig

Mae ffermio wedi datblygu a chymdeithas wedi newid. Yn y dyddiau a fu roedd pob teulu a thŷ efo moch yn yr ardd gefn. Bellach mae moch yn cael eu magu ar ffermydd pwrpasol ac arbenigol.

# Moch yng Nghymru



Yng Nghymru …

- 9,300,00 o ddefaid
- Dros 1,000,000 o wartheg
- Ond dim ond 23,000 o foch
- Er cymaint llai na'r diwydiant defaid a gwartheg, mae'r diwydiant moch yng Nghymru dal yn bwysig.

# Termau

| Term | Eglurhad |
|---|---|
| Hwch | Mochyn benywaidd  - mam y porchell |
| Baedd | Mochyn gwrywaidd |
| Banwes | Mochyn benywaidd heb gael moch bach |
| Porchell | Mochyn bach ar ôl 28 diwrnod |
| Gorffenwyr | Moch sy’n cael eu pesgi yn barod i’r lladd-dy |
| Geni moch | Pan mae hwch neu fanwes yn rhoi genedigaeth |
| Serfio | Pan mae mochyn/baedd yn ceisio beichiogi’r hwch |
| Ffrwythloni artiffisial | Ffrwythloni artiffisial |
| Diddyfnu | Cymryd y porchell oddi ar y fam |

# Golwg fanylach ar y diwydiant porc yng Nghymru…

# Trosolwg

- Yn gyffredinol, mae moch yng Nghymru yn cael eu magu mewn gyr bychan (oddeutu 18 yw maint cyfartalog gyr o foch yng Nghymru). Cedwir y moch am gyfnod hwy na’r arfer hefyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu porc sy’n llawn blas.
- Mae'r hinsawdd a’r tirwedd yng Nghymru’n helpu i ddarparu amgylchedd naturiol i gynhyrchu porc o ansawdd uchel.
- Mae'r anifeiliaid yn derbyn gofal o’r radd flaenaf gan gadw at safonau uchel o lles a iechyd.


# Bridiau poblogaidd

Cymreig
Mae’r Mochyn Cymreig yn fochyn gwyn (er ei fod yn edrych yn binc) ac yn adnabyddus am ei wytnwch ac am gynhyrchu cig moch a phorc o ansawdd uchel. Cyflwynwyd yn gyntaf yn yr 1870au.

Tamworth
Un o’r bridiau hynaf ym Mhrydain – fel arfer yn oren o ran lliw.

Berkshire
Y brîd moch hynaf wedi'i gofnodi ym Mhrydain. Mae'r mochyn hwn yn galed a gwydn ac mae’n perfformio'n dda iawn yn yr awyr agored.



# Cylch bywyd: Porchell



Mae'r porchell yn aros gyda'r fam (yr hwch) am 28 diwrnod tra'n bwydo ar y llefrith mae'n ei gynhyrchu.
Wedi iddynt gael eu diddyfnu oddi ar y llefrith, maen nhw'n symud i lety newydd.



Mae rhai porchell yn aros yn yr un llety nes eu bod yn barod i fynd i'r lladd-dy. Bydd eraill yn symud i lety newydd.



Bydd y porchell yn gael diet gwhanol fel mae'n tyfu I sicarhau byddant yn pwyso oddeutu 110kg yn 6 mis oed.

# Cylch bywyd: o Fanwes i Hwch



Caiff y Fanwes ei ffrwythloni yn artiffisial. Os yn llwyddiannus bydd yn rhoi genedigaeth tri mis, tair wythnos a thri diwrnod yn ddiweddarach. Ar ôl geni'r porchell mae hi nawr yn hwch.



Bydd yr hwch yn bwydo'r porchell am 28 diwrnod cyn iddynt gael eu diddyfnu oddi wrthi.



Mae'r cylch yn dechrau unwaith eto. Ar gyfartaledd mae hwch yn cynhyrchu 6 torllwyth o porchell yn ystod ei bywyd.

# Diet moch

Mae maeth da yn hanfodol ac mae'r systemau cadw moch gallu bod tu allan neu o dan do.

Mae ffermydd yn defnyddio system bwydo hylif yn yr unedau dan do sy'n defnyddio'r cynhyrchion gwastraff o’r diwydiant llaeth, distyllfeydd a phobyddion.

Defnyddir gwenith, haidd a soia hefyd ar gyfer protein a ffibr. Mae'r hychod sydd yn byw yn yr awyr agored yn cael eu bwydo â chynhwysion tebyg ond fel pelenni sych.



# Safonau lles anifeiliaid

- Bydd ffermwyr yn archwilio eu hanifeiliaid bob dydd ac yn darparu bwyd o ansawdd gyda dŵr ffres glân.
- Mae milfeddygon a maethegwyr yn gweithio gyda ffermwyr i roi cyngor arbenigol ar iechyd a lles.
- Pan fydd anifeiliaid yn cael eu cadw dan do, cedwir yr adeilad yn lân a darperir gwelyau o wair ffres i gadw anifeiliaid yn gyfforddus ac yn rhydd o glefydau.
- Os yw anifail yn sâl, rhaid ei drin ar unwaith, a gall fod angen ymweliad gan y milfeddyg.



*“Rydym bob amser yn argymell porc o Gymru i'n holl gwsmeriaid, a dyna maen nhw bob amser ar ei ôl. Mae'n flasus, wedi'i fagu ar y stepan drws ac o ansawdd uchel iawn. Mae’n cefnogi busnesau lleol ac mae’r diwydiant porc o Gymru yn bwysig; nid cig wedi'i fewnforio yw'r ffordd ymlaen".*

*Dai Mathews, Perchennog Mathews Butchers*

# Systemau Cynyrchu

- Yng Nghymru mae systemau cynhyrchu yn eithaf amrywiol.
- Mae gan Gymru lawer o ffermydd moch bach a chanolig eu maint. Yn gyffredinol, caiff moch eu magu yn yr awyr agored, mewn ysguboriau neu gymysgedd o'r ddau.
- Mae gennym hefyd rai unedau ar raddfa fawr.

# Astudiaeth Achos: Forest Coalpit Farm



Symudodd Kyle Holford a Lauren Smith i'r Bannau Brycheiniog yn 2014 heb unrhyw brofiad amaethyddol blaenorol.

Prynon nhw eu moch cyntaf yn 2016 ac adeiladu uned brosesu bwrpasol ar y fferm.

Roedd y ffordd roedd y cig yn edrych a lefel ansawdd bwyta'r cig a gynhyrchwyd yn ffactor allweddol yn eu penderfyniad terfynol i ddewis gyr o foch du a moch Duroc.

Cedwir y moch yn barhaol y tu allan ar 12 erw o dir pori a choetir gyda'r porchyll yn cael eu diddyfnu yn 6 wythnos oed.

Ar hyn o bryd mae'r gyr yn cynnwys 10 hwch bridio sy'n cynhyrchu 70 o foch gorffenedig y flwyddyn ond mae ganddynt gynlluniau i ehangu i 20 hwch sy'n cynhyrchu 160 o foch gorffenedig.

Mae 90% o'u cynnyrch yn cael ei farchnata'n uniongyrchol o'r fferm i gogyddion yn Llundain.



# Wyddost di?

- Fel pobl, mae moch yn hollysyddion neu “omnivores”, sy'n golygu eu bod yn bwyta planhigion a chig, er bod hyn yn anaerferol.
- Mae gan foch synnwyr arogli ardderchog .
- Yn aml, mae moch gwyllt (baeddod) yn cael eu hela yn y gwyllt, yn gweldydd fel Sealand Newydd.
- Mewn perthynas â maint eu corff, mae gan foch ysgyfaint bach.
- Ni all moch edrych i fyny i'r awyr.
- Mae gan dafod moch tua 15,000 o nodau blasu, dim ond 9,000 sydd ganddom ni.
- Mae gan foch dros 6,000 o synwyryddion ar eu trwyn – dyma eu arf palu am fwyd.



- Mae Porc Blasus yn fenter gan Hybu Cig Cymru (HCC) sy'n anelu at hyrwyddo cig moch o foch sydd wedi cael eu geni a'u magu yng Nghymru.
- Mae'n cynnig llwyfan i gynhyrchwyr a manwerthwyr hyrwyddo eu cynnyrch tra'n codi ymwybyddiaeth o fanteision porc i ddefnyddwyr a masnach.
- Mae Porc Blasus yn cynnig cyfle i gynhyrchwyr hyrwyddo eu cynnyrch ac ymuno â chymuned ar-lein sy'n ymroddedig i hyrwyddo porc blasus o ffynonellau lleol.
- Yn ogystal â'r cyfeiriadur, mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n unigryw am y diwydiant moch yng Nghymru, ryseitiau, gwybodaeth am faeth a straeon ffermwyr, cigyddion a chogyddion unigol.